# LC1261

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau yma'n cywiro mân wallau drafftio yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu darpariaeth ddiangen ynglyn ag apelau a gynhwyswyd yn Rheoliadau 2005.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Enw Rheoliadau 2005 yw "Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005", sy'n ei gwneud yn glir bod Rheoliadau 2005 wedi'u gwneud i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Gan hynny, "Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2006" yw'r enw a ddylai fod wedi'i roi ar y Rheoliadau diwygio yma. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gall y mân wall drafftio yma gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Mawrth 2006